

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Pysgodfeydd ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

26 Mehefin 2024

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 ("y Gorchymyn") yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli gwelyau cocos o fewn yr ardal benodedig a chyfundrefn newydd ar gyfer pysgota am gocos.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaeth i ddiwygio neu ddirymu a disodli Is-ddeddfau cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) Cymru 2011 yn gymaint ag y maent yn rheoli pysgota am gocos.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd Rheoliadau 2024 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

2.2 Bydd hyn yn sicrhau y bydd Gorchymyn 2024 yn dod i rym ar 10 Gorffennaf 2024, gan sicrhau bod casglwyr cocos yn cael digon o amser i gael eu trwyddedau ac amsugno amodau eu trwydded newydd cyn i'r bysgodfa gocos gyntaf agor ar 17 Gorffennaf 2024. Bydd osgoi oedi cyn agor y Bysgodfa Tair Afon yn sicrhau nad yw casglwyr cocos ar eu colled ar incwm gwerthfawr. Byddai unrhyw oedi cyn agor y bysgodfa ar 17 Gorffennaf yn cosbi'r casglwyr cocos hynny sy'n dibynnu ar yr incwm hwn yn unig ac a allai arwain at 'farw' cocos wrth i dymheredd yr haf gynyddu.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Cyn 1 Ebrill 2010, roedd pysgota am gocos o amgylch arfordir Cymru yn cael ei reoli gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.

3.2 Cafodd y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr eu diddymu mewn perthynas â Chymru ar 1 Ebrill 2010 pan gafodd Deddf Rheoli Pysgodfeydd 1966 ei diddymu gan adran 187 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("yr MCAA").

3.3 Mae Is-ddeddfau cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2010, fel pe baent wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol yn rhinwedd erthygl 13(1) ac erthygl 13(3) o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol

ac Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 ac Atodlen 3 ac Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw.

- 3.4 Cafodd Is-ddeddf 5 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ei dirymu a'i disodli gan Orchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) Cymru 2011.
- 3.5 Mae adrannau 189(1) a 316(1) o'r MCAA yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud y Gorchymyn.
- 3.6 Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud drwy offeryn statudol ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben ac effaith arfaethedig y ddeddfwriaeth

- 4.1 Mae'r Gorchymyn yn cyflwyno cyfres o fesurau i sicrhau bod gwelyau cocos yn cael eu rheoli mewn modd cadarn, cyson a hyblyg o fewn yr ardal benodedig yng Nghymru. Mae'r ardal benodedig yn y Gorchymyn hwn yn cynnwys gwelyau cocos mawr sy'n cael eu pysgota at ddibenion masnachol. Ar hyn o bryd mae'r gwelyau cocos o fewn yr ardal benodedig yn ardaloedd dosbarthiadol lle y gellir casglu cocos i bobl eu bwyta yn uniongyrchol yn unol ag erthyglau 53–55 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/627 ar 15 March 2019, a oedd yn gosod trefniadau ymarferol ar gyfer perfformiad rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid y bwriedir i bobl eu bwyta yn unol â Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a Rheoliad Diwygio'r Comisiwn (EC) 2074/2005 mewn perthynas â rheolaethau swyddogol.

Roddir mapiau o'r ardal benodedig i ddeiliaid trwydded pan gyflwynir trwyddedau i ddeiliaid trwydded o dan y Gorchymyn.

Mae rhaglen o waith yn mynd rhagddo i lunio mapiau newydd o'r ardal benodedig. Bydd y mapiau diwygiedig ar gael ar GOV.WALES pan fydd y Gorchymyn yn dod i rym. Roedd natur etifeddol a hanesyddol y ddeddfwriaeth bresennol a ddefnyddir i reoli pysgodfeydd cocos hyd yn hyn yn creu ystod eang o anghysondebau ledled Cymru.

Oherwydd cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol, mae rheoli pysgota am gocos wedi bod yn un o'r heriau mwyaf ar gyfer rheoli a gorfodi pysgodfeydd yng Nghymru. Mae'r broses o reoli pysgota am gocos wedi bod yn hynod lafurddwys ac wedi bod yn destun cwynion rheolaidd gan y cyhoedd a chyrrff cyhoeddus eraill.

- 4.3 Mae cocos yn adnodd naturiol ac mae eu digonedd yn amrywio'n fawr iawn. Maent yn cael eu cynaeafu â llaw sy'n gynaliadwy iawn o ran yr amgylchedd os yw'n cael ei reoli'n dda.
- 4.4 Wrth rheoli'r gwaith o gynaeafu cocos, mae cynaliadwyedd hirdymor gwelyau cocos a ffactorau amgylcheddol yn ystyriaethau allweddol.

Mae gwelyau rhynglanwol o amgylch arfordir Cymru o fewn neu gyferbyn â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) a Safleoedd Morol Ewrop wedi'u dynodi ar sail eu nodweddion rhynglanwol. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys rhydyddion sy'n bwyta cocos ac infertebratau eraill. Mae adfer nodweddion eraill fel gwelyau glaswellt y môr a chynefinoedd morfa heli yn rhan o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a Chymru Sero Net.

- 4.5 Mae'r Gorchymyn yn darparu'r gallu i addasu'r gwaith o reoli'r ardal benodedig er mwyn ymateb i newidiadau i lefelau stoc ar welyau cocos a'r amgylchedd, a bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ardal benodedig yn gynaliadwy ac yn ffynhonnell swyddi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 4.6 Mae casglu cocos yn gallu bod yn waith peryglus hefyd. Bydd y Gorchymyn yn cyflwyno gwiriadau cymhwysedd i sicrhau bod deiliaid trwydded yn unigolion sy'n pysgota mewn modd cyfrifol a diogel.
- 4.7 Mae'r mesurau wedi'u cyflwyno gan y Gorchymyn yn cynnwys:
 - i) Gwaharddiadau a chyfyngiadau ar bysgota ar welyau cocos o fewn yr ardal benodedig, gan gynnwys gwaharddiad ar bysgota am gocos neu gymryd cocos o welyau cocos sydd ar gael neu bysgota am gocos neu gymryd cocos heb drwydded,
 - ii) Darpariaeth ar gyfer cyfundrefn newydd ar gyfer trwyddedu pysgota am gocos, sy'n amlinellu'r gofyniad am drwydded bysgota, darpariaeth ynghylch cymhwysedd ar gyfer trwydded, hyd trwydded a ffioedd,
 - iii) Esemptiadau o ddarpariaethau'r Gorchymyn, gan gynnwys pysgota at ddibenion hamdden personol,
 - iv) Dirymu a diwygio amryw Is-ddeddfau cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a chyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) Cymru 2011 yn gymaint ag y maent yn rheoli pysgota am gocos,
 - v) Mae darpariaeth hefyd wedi'i gwneud ar gyfer dirymu amryw Is-ddeddfau cyn Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru sy'n ymwneud â rheoli Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn ac a fydd yn dod i rym pan ddaw Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn 1965 i ben. Pan ddaw Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn 1965 i ben yn 2025, Llywodraeth Cymru a fydd yn gyfrifol am reoli Pysgodfa Cilfach Tywyn.

5. Ymgynghori

- 5.1 Lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar gynigion ar gyfer mesurau rheoli pysgodfeydd cocos newydd ar 11 Chwefror 2022 a daeth i ben ar 6 Mai 2022. Cafodd ystod eang o randdeiliaid wybod

am yr ymgynghoriad gan gynnwys casglwyr, proseswyr a phrynwyr cocos, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Yr Awdurdod er Atal Cam-drin Gweithwyr gan Feistri Gangiau, Cefas, Seafish a'r holl randdeiliaid a thirfeddianwyr lleol sydd â diddordeb mewn pysgodfeydd cocos.

- 5.2 Derbyniwyd 174 o ymatebion gan amrywiaeth o unigolion a chyreff cyfansoddedig sydd â buddiant yn niwydiant cocos Cymru. Daeth 80 o'r ymatebion hyn i lawr trwy wefan Llywodraeth Cymru, anfonwyd 80 o ffurflenni ymateb wedi'u cwblhau trwy e-bost, ac roedd 14 yn ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd trwy e-bost heb ddefnyddio ffurflen ymateb. Nid oedd yr 14 ymateb a ddaeth i law trwy e-bost heb ddefnyddio'r ffurflen ymateb wedi ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, roeddent yn ymatebion uniongyrchol i'r ymgynghoriad, ac roeddent wedi cyrraedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Felly, maent wedi cael eu hystyried yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
- 5.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â phob un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad ond un. Roedd barn ynghylch y terfyn dyddiol arfaethedig wedi'i rhannu yn gyfartal. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, mae pŵer i ychwanegu amod yn pennu terfyn dyddiol ar ddalfeydd wedi cael ei gynnwys yn y mesurau yn y gorchymyn hwn. Pan fydd modd, ymgynghorir â deiliaid trwydded cyn ychwanegu amodau, a bydd eu cynnwys yn seiliedig ar dystiolaeth bod eu hangen. Gall terfyn dyddiol ar ddalfeydd darparu'r gallu i reoli lefel y pysgota ar welyau cocos, rhywbeth sy'n hanfodol i reoli stociau cocos mewn modd cynaliadwy.
- 5.4 Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar gael yma: <https://gov.wales/cockle-fishery-management-measures-2022> Bu ymgysylltu parhaus rhwng swyddogion a rhanddeiliaid ers yr ymgynghoriad ac maent yn ymwybodol bod y Gorchymyn i fod i gael ei osod.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Gwneud Dim – Busnes fel arfer

- 6.1 Ar hyn o bryd, mae tua 350 o drwyddedau i gasglu cocos yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Amcangyfrifir bod casglwyr yn cymryd cocos gyda gwerth gwerthiant cyntaf o dros £10 miliwn bob blwyddyn. Hefyd, mae'r diwydiant yn darparu cyflogaeth ym maes prosesu a gweithgareddau cysylltiedig eraill gan gynnwys manwerthu (marchnadoedd lleol). Fodd bynnag, os nad yw'r system reoleiddio bresennol yn cael ei moderneiddio, mae'n debygol na fydd pysgodfeydd cocos cyhoeddus yn gynaliadwy, y bydd gormod o gocos yn cael eu casglu, gan ddihysbyddu pysgodfeydd cocos mewn cylch o ffynnu a methu. Mae'r heriau a'r costau presennol sy'n cael eu hwynebu wrth reoli a gorfodi'r pysgodfeydd hyn yn debygol o gynyddu. Bydd casglwyr dibrofiad sy'n cael eu hysgogi gan y cyfle i wneud arian yn gyflym yn parhau i ddefnyddio pysgodfeydd oherwydd diffyg rheolaethau digonol ar gyfer cymhwysra. Ni fydd y broses o reoli pysgodfeydd cocos cyhoeddus yn effeithlon nac yn effeithiol gan y bydd gweithgarwch anghyfreithlon yn parhau i gael effaith ddrwg ar gymunedau lleol a bygwth bywoliaeth casglwyr cyfreithlon.
- 6.2 Heb unrhyw wiriadau cymhwysra ar gyfer ceisiadau am drwyddedau, bydd risgiau yn parhau o ran diogelwch casglwyr, diogelu'r amgylchedd, a gorgasglu cocos. Yn ogystal, gallai hyn rwystru'r gwaith o gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu a Sero-Net Cymru i adfer cynefinoedd morfeydd heli a glaswellt y môr.
- 6.3 Mae cyrff cyhoeddus partner, y diwydiant cocos, a chymunedau wrth ymyl pysgodfeydd cocos yn rhwystredig oherwydd y diffyg cynnydd i gryfhau mesurau rheoleiddio pysgodfeydd cocos cyhoeddus. Felly, os na chaiff y maes polisi hwn ei ddatblygu, mae'n debygol o arwain at fwy o gwynion, difrod i enw da, a sylw negyddol posibl yn y cyfryngau.

Opsiwn 2: Newidiadau sylfaenol – amodau yn unig

- 6.4 Mae'r ddeddfwriaeth a'r is-ddeddfau presennol sy'n sylfaen i reoli'r pysgodfeydd cocos yn darparu pwerau cyfyngedig yn unig i wneud newidiadau bach i amodau trwyddedau. Mae'r potensial i wneud gwelliannau i'r trefniadau rheoli o dan y drefn hon yn gyfyngedig ac maen nhw'n gallu bod yn araf i ddod i rym oherwydd nad oes modd eu gorfodi.
- 6.5 Hefyd, mae hyn yn gallu achosi problemau wrth geisio diogelu'r cynefinoedd sensitif sy'n bodoli yn agos at y pysgodfeydd hyn. Mae'n hysbys bod deiliaid trwyddedau wedi anwybyddu amodau trwyddedau

ac wedi sathru ar gynefinoedd sensitif os ydynt yn gwybod am lwybr byr i gyrraedd y gwely cocos. Mae hyn yn parhau i achosi problemau i dirfeddianwyr lleol, CNC a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gorfod delio â'r canlyniadau. Mae angen llawer iawn o adnoddau i ganfod y troseddwyr a delio â'r cwynion dilynol.

- 6.6 Er mwyn sicrhau bod y pysgodfeydd cocos yn gallu denu diddordeb masnachol cyfreithlon a gwella diogelwch, bydd angen tystiolaeth o wiriadau cymhwysra penodol cyn y gellir rhoi trwydded. Bydd angen Gorchymyn ar gyfer hyn.
- 6.7 Yn yr un modd â'r opsiwn busnes fel arfer uchod, bydd y diwydiant cocos yn ei gyfanrwydd a'r holl randdeiliaid perthnasol yn parhau i fod yn rhwystredig oherwydd y diffyg cynnydd wrth gryfhau mesurau rheoleiddio ar gyfer pysgodfeydd cocos cyhoeddus. Mae rhanddeiliaid wedi bod yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd dro ar ôl tro am flynyddoedd lawer.
- 6.8 Mae'r diwydiant wedi awgrymu y dylid cyflwyno tâl am drwydded gocos fel anogaeth i gasglwyr sydd wir eisiau cefnogi'r diwydiant yn barhaus a sicrhau ei hyfywedd am flynyddoedd i ddod. Gan fod angen llawer o adnoddau i reoli pysgodfeydd cocos, byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru adennill costau rheoli a gwyddonol. Nid oes modd cyflwyno ffi trwydded trwy gyflwyno amodau - bydd angen Gorchymyn. Am y rheswm hwn, mae'r opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru ac ni chafodd ei ddadansoddi ymhellach.

Opsiwn 3 – Pysgodfeydd cyfyngedig

- 6.9 Dros y blynyddoedd, mae nifer o ddeiliaid trwyddedau a rhanddeiliaid lleol wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru greu cyfundrefn drwyddedu gyfyngedig. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai cyfyngiad ar nifer y casglwyr sy'n gallu defnyddio'r bysgodfa neu'r pysgodfeydd. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu na fyddai pysgodfeydd cocos ond yn agor yn rhannol ar gyfer nifer benodol o unigolion dethol.
- 6.10 Byddai cyfyngu ar nifer y deiliaid trwydded yn y modd hwn yn arwain at roi 'hawliau unigryw' i gasglwyr sy'n llwyddo i gael trwydded, a byddai hynny'n cynyddu eu hincwm yn sylweddol er eu bod yn talu mwy am y drwydded. I'r gwrthwyneb, ni fyddai nifer fwy o gasglwyr sy'n dibynnu ar incwm o gasglu cocos ar hyn o bryd yn cael trwydded, a byddai angen iddynt chwilio am ffynonellau incwm a chyflogaeth amgen.
- 6.11 Mae'n debygol y byddai rhai o'r unigolion nad oeddent wedi llwyddo i gael trwydded yn mynd ati i gasglu cocos yn anghyfreithlon. Byddai'r cynnydd hwn mewn potsio yn gwneud y gwaith o reoli'r bysgodfa hyd yn oed yn anoddach, a byddai'n gosod gofynion ychwanegol ar adnoddau rheoli a gorfodi sydd eisoes dan bwysau.

- 6.12 Os yw Llywodraeth Cymru eisiau cadw at ei hymrwymiaidau i gydraddoldeb, cenedlaethau'r dyfodol, amrywiaeth, gwaith teg, a chynaliadwyedd diwydiannau yn y dyfodol, mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n gwneud cais am drwydded yn gwneud hynny ar sail gyfartal. Trwy gyfyngu ar drwyddedau, byddai'n anodd amddiffyn hawl un person i weithio ar draul un arall. Byddai proses apelio yn rhan hanfodol o gyfundrefn newydd.
- 6.13 Byddai angen Tribiwnlys Haen Gyntaf i ystyried apelau. Dyma amcangyfrif o gostau sefydlu proses apelio Tribiwnlys Haen Gyntaf:
- Cost gychwynnol o £7,000 i newid prosesau Gwasanaeth Erllyn y Goron Ei Fawrhydi (HMCPS).
 - Tâl o £35,000 y flwyddyn (bydd hyn yn cynnwys hyd at 10 apêl y flwyddyn a bydd yn daladwy hyd yn oed os oes llai na 10 apêl wedi'u prosesu)
 - £3,500 ar gyfer pob apêl yn ychwanegol at y 10 apêl uchod.
- 6.14 Cymhlethdod arall wrth sefydlu cyfundrefn drwyddedu yw sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gael trwydded a bod casglwyr newydd i'r diwydiant yn gallu ymuno â'r proffesiwn trwy brentisiaeth neu drwy fod yn hunangyflogedig. Mae'n gallu costio degau o filoedd o bunnoedd i sefydlu busnes, ac fe allai hyn atal casglwyr newydd os nad oes sicrwydd y byddant yn llwyddo yn y broses ddethol.
- 6.15 Mae system ar waith eisoes i alluogi unigolion neu sefydliadau i wneud cais am drwydded ar gyfer pysgodfa gyfyngedig mewn ardaloedd penodedig ar gyfer pysgod cregyn penodedig. Gelwir y rhain yn orchmynion rheoleiddio y gellir eu rhoi gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Pysgodfeydd Cregyn 1967. Mae CNC yn rheoli pysgodfeydd cocos a reoleiddir yn aber Afon Dyfrdwy (52 trwydded) a Chilfach Tywyn (36 trwydded). Mae'r pysgodfeydd hyn, nad ydynt o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, wedi bod yn destun rhywfaint o feirniadaeth gan fod tystiolaeth o gasglu blaenorol a phrosesau'r cyntaf i'r felin yn tueddu i sicrhau bod yr un bobl yn dal eu gafael ar drwyddedau am flynyddoedd lawer. Mewn rhai achosion, nid yw deiliaid y trwyddedau hyn yn eu defnyddio ac mae casglwyr newydd yn cael eu heithrio i bob pwrpas.

Opsiwn 4 – Gorchymyn Newydd

- 6.16 Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi ymgynghori â'r cyhoedd, casglwyr a phartion â buddiant ar gyfres o fesurau i ddarparu rheolaeth gadarn, gyson a hyblyg o bysgodfeydd cocos cyhoeddus ledled Cymru (Ymgynghoriad LIC42711) fel a ganlyn:
- i. Trwydded ar gyfer Cymru gyfan i gasglu cocos
 - ii. Gwiriadau o gymhwystra'r rhai sy'n gwneud cais am drwyddedau cocos
 - iii. Codi ffi flynyddol am drwyddedau cocos
 - iv. Atodi amodau trwydded cyffredinol i bob trwydded gocos

- v. Rheoli pysgodfa gocos mewn modd addasol ar sail amodau lleol, sy'n benodol i bysgodfeydd unigol a enwir
- Vi. Safoni'r lwfans hamdden personol ledled Cymru

6.17 Roedd yr ymateb yn gryf iawn o blaid Gorchymyn newydd.

6.18 Yr opsiwn a ffeirir yw Opsiwn Rhif 4, sef creu Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 sydd nid yn unig yn rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru reoli pysgodfeydd cocos ar hyn o bryd, ond hefyd y pwerau a'r hyblygrwydd i wella rheolaeth, hyfywedd a hygrededd y diwydiant yn y dyfodol.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

7.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gan ddefnyddio'r dull hwn, ni fyddai modd adennill y costau sy'n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd cyhoeddus yn unol â *'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru 2016'*.

Opsiwn 4 – Gorchymyn Newydd

Costau:

7.2 Ar sail amcangyfrifon cost o flynyddoedd blaenorol, bydd ffi'r drwydded yn costio £250 am y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gwblhau ymarfer pennu ffioedd manylach er mwyn talu costau rheoli a gwyddonol yn gywir. Cynhelir ymgynghoriad anffurfiol wedyn gyda phartion â buddiant cyn gwneud penderfyniad terfynol ar ffi. Mae ffi drwydded yn rhywbeth y mae casglwyr cocos wedi bod yn gofyn amdani ers peth amser gan eu bod yn teimlo ei bod yn rhoi rhywfaint o hygrededd i'w proffesiwn. Byddai'r ffi hon yn fach iawn o'i gymharu â'r incwm a enillir, sef tua 1% o enillion cyfartalog. Mae costau trwyddedau mewn pysgodfeydd eraill yn y DU tua 3-4 gwaith yn uwch na'r ffi hon.

7.3 I gefnogi'r gwaith o reoli'r bysgodfa o dan y gyfundrefn wedi'i chreu gan y gorchymyn newydd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu Grŵp Cynghori Cymru ar Gocos. Byddai'r grŵp hwn yn cynrychioli'r diwydiant cocos yng Nghymru ac yn galluogi rhanddeiliaid i roi cyngor uniongyrchol ynghylch y ffordd mae'r bysgodfa'n cael ei rheoli.

7.4 Rhagwelir y bydd y ffi drwydded dros dro newydd (a bennir ar gyfradd sefydlog o £250 am y flwyddyn gyntaf) yn cael ei chodi ar gyfer tymor cocos 2024. Bydd y broses o wneud cais am drwydded yn cael ei symleiddio trwy gyflwyno proses ddigidol newydd a fydd yn caniatáu i

ymgeiswyr wneud cais am drwyddedau a'u derbyn ar-lein. Derbynnir y ffi hon trwy systemau/apiau cyllid y llywodraeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer trwyddedau pysgodfeydd h.y. Cregyn Moch. Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol.

- 7.5 Cyfrifir ffioedd trwydded yn y dyfodol i dalu am yr holl gostau rheoli a gwyddoniaeth. Bydd y cyfrifiadau a'r ffi ddilynol yn destun ymgynghoriad anffurfiol â phartion â buddiant cyn cyflwyno'r ffi. Yn yr un modd â'r ffi drwydded gychwynol, bydd ffioedd yn y dyfodol yn cael ei thalu trwy systemau cyllid presennol y llywodraeth. Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol.
- 7.6 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffi am drwydded Llywodraeth Cymru i gasglu cocos. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dyroddi tua 350 o drwyddedau cocos bob blwyddyn (ar gyfer y Gogledd a'r De), a defnyddir tua 250-300 o'r trwyddedau sy'n cael eu dyrannu mewn gwirionedd. Trwy gyflwyno ffi drwydded gychwynol yn 2024, a monitro costau o dan y system reoli newydd yn agos, gellir cyfrifo a gosod ffioedd trwydded ar gyfer 2025 ymlaen.
- 7.7 Wrth symud ymlaen, bydd modd adennill costau rheoli a gwyddoniaeth yn llawn trwy ffioedd trwyddedau. Mae adennill costau rheoli pysgodfeydd cocos cyhoeddus yn unol â '*Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru 2016*'. Bydd rhwymedigaethau statudol, fel mesurau rheoli a gorfodi, yn parhau i gael eu cynnwys trwy gostau rhedeg yr adran, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Pan fydd Cilfach Tywyn yn dychwelyd i fod yn bysgodfa gyhoeddus ym mis Mehefin 2025, bydd y baich ar y tîm gorfodi yn cynyddu.

Manteision:

- 7.8 Bydd rheolaeth addasol o'r pysgodfeydd cocos ar sail tystiolaeth wyddonol yn sicrhau nad yw lefelau dalfeydd yn y gwelyau cocos yn effeithio ar iechyd stociau cocos nac ar gynaliadwyedd y bysgodfa ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd cyflwyno mesurau fel terfynau dalfa ddyddiol a datganiadau dalfa ddyddiol yn benodol yn galluogi rheoli ar lefel fwy manwl.
- 7.9 Mae dulliau o agor a chau pysgodfeydd cocos wedi bod yn wahanol ac yn anhyblyg eu natur yn y gorffennol. Bydd Gorchymyn newydd yn darparu'r pwerau sydd eu hangen i sicrhau cydlyniant a hyblygrwydd ledled yr ardaloedd penodedig. Bydd unrhyw benderfyniad i agor neu gau pysgodfeydd yn ystyried data arolygon gwyddonol ac amgylcheddol.
- 7.10 Trwy sicrhau bod gan ddeiliaid trwyddedau gymwysterau addas ac offer diogelwch priodol i weithio yn yr ardaloedd hyn a allai fod yn

beryllus, bydd modd gwella'r diogelwch cyffredinol a lleihau'r risg i bawb sy'n casglu cocos yn y pysgodfeydd.

- 7.11 Trwy ddiwygiadau, bydd y gorchymyn newydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru agor pysgodfeydd masnachol hyfyw newydd pan fyddant ar gael. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes unrhyw ddarpariaeth i agor pysgodfeydd/gwelyau cocos eraill yng Nghymru ac eithrio'r rhai a ragnodir ar hyn o bryd mewn hen is-ddeddfau a gafodd eu hetifeddu gan bwyllgorau pysgodfeydd y môr.
- 7.12 Bydd ffioedd trwyddedau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod costau llawn yn cael eu hadennill o 2025 ymlaen yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru 2016, a byddant yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd trwy adennill costau rheoli a gwyddoniaeth.

8 Asesiad Cystadleuaeth

- 8.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau, ac nid oes disgwyl i'r Gorchymyn gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.

9 Adolygiad ôl-weithredu

- 9.1 Cynhelir adolygiad o'r gyfundrefn rheoli pysgodfeydd cocos newydd ar ddiwedd pob cyfnod trwyddedu pysgota cocos. Bydd hyn yn nodi a oes angen newidiadau pellach i'r dull rheoli neu a oes angen diwygio'r Gorchymyn.
- 9.2 Bydd modd gwneud unrhyw fân newidiadau i amodau trwyddedau yn ôl yr angen (yn unol ag amserlen yr adolygiad) ac ni fyddant yn cael eu cyflwyno heb ymgynghoriad byr gyda phartïon â buddiant.

10. Materion eraill

- 10.1 Asesiad Effaith Integredig (IIA) - Mae IIA wedi'i gwblhau.